## Marw i Fyw yn dragywydd

**Ioan 12:24; Rhufeiniaid 6:10–11**

Dyna arwyddair y mae Iesu am i ni ei ystyried. Y mae'r gronyn gwenith yn ddiffrwyth cyhyd ag y cedwir ef mewn diogelwch. Pan gaiff ei daflu gan yr amaethwr i'r pridd yn y gwanwyn, a'i gladdu yn y ddaear, yna fe ffrwytha ar gyfer y cynhaeaf. Mewn geiriau eraill, mae yn marw er mwyn cael byw.

Dyma neges Iesu wrth ystyried ei bererindod ei hun. Ef oedd y Gronyn Gwenith. Os na fyddai'n wynebu ar Galfaria mi fyddai ei weinidogaeth heb dyfiant. Yr oedd yn rhaid i Grist farw er mwyn i'w ddilynwyr gael bywyd tragwyddol.

'Pan grymodd ef ei ben
wrth farw yn ein lle,
agorodd ffordd, pan rwyga'r llen,
i bur drigfannau'r ne'.'

Ac y mae'r gwirionedd yn dweud hyn: fe ddisgwylir i chwithau farw i ryw bethau, er mwyn Crist a Chymru a chyd-ddyn. Mae'n bechadurus o drist fod disgyblion yn amharod i farw i bleserau diwerth er mwyn rhoddi hwb ymlaen i'r Ffydd Gristnogol, a bod Cymry Cymraeg yn amharod i farw i fateroliaeth er mwyn hybu eu diwylliant a'u Cymreictod.

Dywed y gwirionedd fod yn rhaid i'r hedyn farw er mwyn ffrwythloni. Mae hynny'n wir amdanom oll. Daw adeg pan mae'n rhaid i ni farw i bechod. Os na fyddwn farw iddo nid oes ffrwythlondeb ysbrydol. Os na fydd y Cristion yn marw yn yr ystyr hyn, bydd ar ei ben ei hun. Ond os bydd yn marw, bydd yn ffrwythloni gyda Christ. Gall y Cristion fod yn ddiffrwyth neu yn ffrwythlon. Mae'n dibynnu'n gyfan gwbl ar ei barodrwydd i ymuno â Iesu, fel y'n dysgwyd gan Paul yn yr Epistol at y Rhufeiniaid. Darllener yr adnodau yn ofalus.

I dderbyn ffrwythlondeb yr Ysbryd, mae'n rhaid i ni fynd i gynhaeaf Calfaria gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd. Yr ydym yn marw i'r hen bethau er mwyn byw i'r ffrwythlondeb newydd sydd gyda'r Ysbryd. Gwrandawn o'r newydd:

'Mi a groeshoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r hyn yr ydwyf yr awron yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi' (Galatiaid 2:20).

Mae ffrwyth y ddaear fel ffrwyth ein ffydd Gristnogol yn dibynnu ar hau'r had.